

# BUGEILES Y GWENITH GWYN

YN 1844 y cyhoeddwyd y casgliad cyntaf argraffedig o ganeuon gwerin gyda geiriau Cymraeg a hynny dan y pennawd *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*. Y ferch a fu'n gyfrifol am gasglu'r caneuon, am eu golygu'n gerddorol ac am sicrhau geiriau 'teilwng' ar eu cyfer, oedd Maria Jane Williams o Aberpergwm, gyda chryn anogaeth a chyngor oddi wrth Arglwyddes Llanofar.

Da meddwl y gwelir, cyn bo hir, adargraffiad o'r gyfrol hon yn ymddangos, gyda rhagymadrodd a nodiadau cefndirol helaeth, gan Daniel Huws, Ceidwad Adran Y Llwyysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Gydag un o Eisteddfodau'r Fenni y mae hanes y gyfrol yn cychwyn; o leiaf, gwelodd cnewyllyn y casgliad olau dydd cyhoeddus am y tro cyntaf ym mhedwaredd gylchwil Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni yn 1837. Cynigid gwobr yn yr eisteddfod honno am '(the) best collection of original unpublished Welsh Airs, with the words, as sung by the peasantry of Wales.'

Cynhwysai'r wobwr fedal oedd yn werth tair gini, a dwy gini mewn arian, ac i'r ferch o Aberpergwm yr aeth y tlws a'r swm. Ond nid am y casgliad cyflawn, fel yr argraffwyd o, y rhoddwyd iddi'r wobwr. Hyd y gellir casglu, pymtheg o ganeuon yn unig a anfonwyd i'r gystadleuaeth; ychwanegwyd y gweddill, 28 ohonynt, mewn blynyddoedd diweddarach.

Fel gyda sawl eisteddfod o hynny hyd yrŵan bu'n arfer sicrhau noddwyr er mwyn cyflwyno gwobrau i'r buddugwyr, a'r noddwr yn achos y gystadleuaeth benodol hon oedd yr Arglwyddes Coffin Greenly (1771-1839). Roedd ganddi hi ddiddordeb gwirioneddol nid yn unig mewn cerddoriaeth ond hefyd yn hanes a thraddodiadau Cymru a chystal inni dreulio peth amser yma yn sôn tipyn amdani.

Ei syniad hi oedd galw am gystadleuaeth o'r fath ac y mae'n eithaf posibl na fyddai Maria Jane Williams wedi meddwl erioed am gyhoeddi casgliad o ganeuon onibai am y gystadleuaeth arbennig honno.

\*\*\*

AERES Llys Titley, heb fod nepell o Geintun, Swydd Henffordd, oedd Elizabeth Brown Greenly, a dalai ei theulu diroedd ac eiddo yn Llandeilo Bertholau, Y Fenni a Chwm Du. Gallai siarad a sgrifennu Cymraeg yn burion ac yr oedd yn dra chefnogol i'r

MEREDYDD EVANS a PHYLLIS KINNEY ar Miss Jane

eisteddfodau, y rhai taleithiol yn ogystal ag eraill mwy lleol eu hapêl. Un o'i chyfeillion pennaf oedd Mrs Waddington, mam Arglwyddes Llanofar, ac ymwelai'n fynych â theluoedd tai mawr Henffordd, Mynwy, Brycheiniog a Morgannwg gan eu croesawu hwythau, yn eu tro, i'w thai ei hun.

Yn 1811 priododd â'r Llyngesydd Syr Isaac Coffin ond bywyd priodasol rhyfedd iawn a gafodd yn ei gwmi. Creadur od oedd y Llyngesydd ac ychydig amser a dreuliodd yn Llys Titley ar wahân i flwyddyn a chwarter cyntaf ei oes briodasol.

Yn bendifaddau 'doedd ganddo mo'r diddordeb lleiaf mewn gweithgareddau Cymraeg. Cyn diwedd ei oes gollyngodd ei draig y 'Coffin' o'i henw ac ymddengys na fu hynny'n achos syndod i neb!

Roedd yn un o aelodau cynharaf Cymdeithas Cymreigyddion Y Fenni (rhif 41, yn wir); yn aelod hefyd o bwyllgor cyntaf y *Welsh MSS Society*, cymdeithas a sefydlwyd yn unswydd i argraffu llawysgrifau Cymraeg, a chymdeithas y cynigiwyd ei sefydlu gyntaf gan William Williams, Aberpergwm, brawd Maria Jane Williams.

At hyn mae'n werth sylwi bod yr Arglwyddes Greenly yn noddwr anrhydeddus i lolo Morgannwg ac yn gyfeillgar iawn â Charnhuanawc, gŵr yr oedd ei gysgod yn drwm dros holl weithgareddau diwylliannol Cymraeg De-Ddwyrain Cymru, yn arbennig, yn ei gyfnod. Yn wir, mynn Mair Elvet Thomas yn ei chyfrol wych, *'Afaith yng Ngwent'*, mai ef a ddysgodd Cymraeg i'r Arglwyddes Greenly.

Mae'n amlwg oddi wrth lythyr a sgrifennodd at gyfeilles iddi yn 1836 ei bod yn gyfarwydd â theulu Aberpergwm cyn noddi'r wobwr ar gyfer y gystadleuaeth a enillwyd gan Maria Jane Williams:

*The youngest, Miss Jane (Williams) has a fine voice, and is very musical. She sang to us several beautiful airs which she had learned of an old woman in Glamorganshire hills now 70 years old but still having a good voice — she learned them of her mother, who lived to 95 and so traced them back for centuries transmitted orally, never written down. They are of a very different character to any Welsh Music I ever heard before, are plaintive or devotional with a touching wildness. Miss Jane*



MARIA JANE WILLIAMS

*Williams intends to have them written down, for she knows no one who sings them besides this one old woman.*

Efallai mai'r profiad o wrando ar 'Miss Jane' yn canu a'i cymhellodd i feddwl am osod y gystadleuaeth. Beth bynnag am hynny mae'n briodol i bawb sy'n ymserchu mewn canu gwerin gofio am ei chymwynas.

\*\*\*

A THROI yrŵan at gyfrol Jane Williams bodlonwn ar ychydig sylwadau cyffredinol (bydd y doeth yn ein plith yn sicr o brynu'r gyfrol sydd ar ymddangos!) gan droi, i ddechrau, at y sefyllfa ynglŷn â'r geiriau.

Er i'r casglydd hawlio yn ei rhagymadrodd mai'r geiriau argraffedig '*are those sung to the airs*' dangosodd Daniel Huws mewn ysgrif yn *Cerddoriaeth Cymru*, Cyf. 4, Rhif 5, nad dyna'r gwir. Bu cryn ddiwygio ar y rhai a gasglwyd yn wreiddiol ac ychwanegwyd ambell gwpled a phennill newydd sbon.

Y bardd a ddaeth i'r adwy yma oedd Taliesin ab Iolo a chafodd Jane Williams rywfaint o gyngor a chynorthwy hefyd oddi wrth Tegid. Ond gallai pethau fod wedi bod yn waeth. Ar un amser bu'r casglydd yn ystyried cyhoeddi'r alawon yn unig a diamau mai dyna a fyddai wedi digwydd onibai am wrthwynebiad pendant Arglwyddes Llanofar.

Roedd hi, meddai, wedi sicrhau caniatâd i Jane Williams i gyflwyno ei chyfrol i'r Frenhines Victoria ar yr amod y cyhoeddidd yr alawon gyda'r geiriau Cymraeg. 'Doedd dim ateb i amod felna!

Er nad oes yr un dystiolaeth bendant ynglŷn â'r gerddoriaeth, mae arwyddion sy'n awgrymu bod Jane Williams wedi golygu'r alawon hefyd. Wrth gwrw, roedd hynny'n beth cyffredin yn ei

chyfnod.

Mae Thomson, yn wir, yn dweud yn y cyflwyniad i *A Select Collection of Original Welsh Airs* ei fod naill ai yn newid yr alawon i'w gwneud yn ffurf diddorol neu yn gwneud y ffurf yn haws i'r beirdd sgrifennu penillion arni (penillion Saesneg, yn naturiol!) Hefyd, mae'n amlwg i Fardd Alaw gwneud yr un peth yn ei gyfrolau *The Welsh Harper*, os cymharwn ei osodiadau ef gyda'r fersiynau gwreiddiol a anfonwyd iddo gan Ifor Ceri.

Ond mae fersiynau Jane Williams bob amser yn chwaethus ac mae'n amlwg bod rhai o'i newidiadau'n ychwanegu at harddwch y gân.

Mae 'Y Gŵydd' yn esiampl o hyn. Roedd ei ffurf yn boblogaidd i'r eithaf yng Nghymru gyda dros 30 fersiwn ohoni. Ond Jane Williams yw'r unig un sy wedi nodi fersiwn gydag ailadrodd y diweddglu yn y ddwy adran. Mae'n deg i dybio mai hi a ychwanegodd yr ailadrodd ei hun er mwyn cytbwyo'r brawddegau, a rhaid cyfaddef bod yr effaith yn drawiadol.

\*\*\*

MEWN AMBELL i le arall mae'n bosibl gweld arwyddion golygu, yn arbennig wrth gymharu ei fersiynau hi â fersiynau eraill gan gasglyddion o'r un cyfnod fel Ifor Ceri a Ieuan Ddu.

Ar y llaw arall dealodd yr hen foddau cerddorol yn well na nhw. Yn lle nodi pob alaw yn y modd mwyaf neu'r modd lleiaf, fel y gwnaeth Ifor Ceri, neu gamddeall y moddau yn llwyr fel yn achos Ieuan Ddu, mae tua chwarter o'r alawon yn *Ancient National Airs* yn yr hen foddau, sef y doraidd (y modd re) a'r aeolaid (y modd la). Diolch iddi am gadw nodweddion yr alawon hyn mor ofalus.

Aeth casgliad Jane Williams yn boblogaidd trwy Gymru yn y ganrif ddiwethaf. Ailargraffwyd rhyw ddeg o'i chaneuon gan Fardd Alaw yn *The Welsh Harper*, ond heb y geiriau, ac yn nes ymlaen yn y ganrif cynwyswyd nifer ohonynt yn *Llyfr Brinley Richards, Songs of Wales*.

Roedd y casgliad hwnnw ar bron pob piano yn y wlad a phawb yn gyfarwydd â chaneuon fel 'Y Deryn Pur', 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn', 'Merch y Melinydd' ac 'Y Ferch o Scêr', caneuon a gasglwyd gan Jane Williams fel cymwynas i'w chenedl. Diolch bod y gyfrol lawn yn dod allan unwaith eto i wneud yr un gymwynas i genhedlaeth newydd.